

..............................................................

Mae parciau'n bwysig - yn enwedig os ydych chi'n byw mewn tref neu ddinas fawr. Maen nhw'n lleoedd diogel lle y gall plant chwarae. Maen nhw'n rhoi cyfle i bobl ymlacio ar ôl bod yn gweithio. Maen nhw'n fannau lle y gall teuluoedd brynu hufen iâ a mwynhau cyfnod gyda'i gilydd ar b'nawn Sul.

Mewn rhai dinasoedd, mae amrywiaeth o barciau o wahanol faint. Mae yna rai mawr iawn sy'n cynnwys meysydd chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc a siglenni a si-sos ar gyfer plant iau. Mae rhai'n llai lle y gall pobl fynd i eistedd a mwynhau.

Fodd bynnag, mae un parc yn fach iawn, iawn. Mill Ends Park yw enw'r parc yma ac mae e yn Portland, Oregon, Gogledd America. Mae'r parc ar ffurf cylch, gyda diamedr o 0.61 metr. Mae'n enwog oherwydd hwn yw'r parc lleiaf yn y byd.

Mae hanes diddorol i'r parc yma. Cafodd ei greu yn 1946 gan ddyn o'r enw Dick Fagan. Newyddiadurwr oedd e, yn gweithio ar bapur newydd. Roedd ei swyddfa ar yr ail lawr mewn adeilad oedd yn edrych i lawr dros ffordd brysur. Un diwrnod, gwelodd fod twll yn y ffordd oherwydd roedd penderfyniad wedi ei wneud i osod postyn a lamp golau ar ganol y ffordd. Fodd bynnag, aeth cryn amser heibio ond chyrhaeddodd y polyn ddim. Yn y diwedd, roedd y twll yn llawn chwyn.

Penderfynodd Dic Fagan blannu blodau yn y twll. Yn y papur newydd, eglurodd wrth y darllenwyr pam roedd e wedi gwneud hyn. Dywedodd ei fod wedi gweld *leprechaun* yn palu yn y twll. Rhuthrodd i lawr o'r swyddfa a gafael yn y *leprechaun*. Fel mae pawb sydd wedi cael profiad tebyg yn gwybod, pan fyddwch chi'n gafael mewn *leprechaun*, mae'ch dymuniad chi'n dod yn wir. Felly, dyma Dic yn gwneud dymuniad i gael parc iddo'i hun. Gan nad oedd wedi nodi maint y parc, gwnaeth y *leprechaun* y parc yma iddo!

Cafodd y parc ei gyflwyno i'r ddinas ar Ddydd San Padrig, 1948 ac ers hynny mae llawer o newidiadau wedi digwydd iddo. Mae pobl Portland wedi gosod blodau ynddo yn ogystal â phethau fel soser hedfan, olwyn Ferris fawr, cofgolofnau bach a phwll nofio bach - ar gyfer y *leprechauns* sy'n byw yno! Mae'n siŵr eu bod wrth eu bodd yn deifio i mewn iddo pan fydd y tywydd yn boeth iawn neu'n sglefrio arno yn ystod y gaeaf!

Bu farw Dic yn 1969 ond mae'r parc yno o hyd - yng nghanol y ffordd brysur a'r traffig. Mae cannoedd o bobl yn gyrru heibio iddo bob dydd ar eu ffordd i'r gwaith. Mae'n lle pwysig i'r Gwyddelod sy'n byw yn Portland oherwydd yn y fan yma mae eu dathliadau San Padrig yn digwydd bob blwyddyn ar Fawrth 17. Gwych 'te! Tybed ydyn nhw'n gweld y *leprechauns*?